



Adroddiad Adolygiad Ymarfer Oedolion

Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru

Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig

Ynglŷn â: BDOGC1/2021/FCC

Amlinelliad bras o'r amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr Adolygiad

Yr hyn y dylid ei gynnwys yma: -

- *Y cyd-destun cyfreithiol o'r canllawiau y mae'r adolygiad yn cael ei gynnal mewn cysylltiad â hwy*
- *Yr amgylchiadau sydd wedi arwain at gynnal yr adolygiad*
- *Y cyfnod a adolygir a'r rheswm pam*
- *Llinell amser gryno o ddigwyddiadau arwyddocaol i'w hychwanegu ar ffurf atodiad*

Comisiynwyd Adolygiad Ymarfer Oedolion Estynedig gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ar 24/11/2021 yn sgil argymhelliad Is-grŵp Adolygu Ymarfer Oedolion yn unol â'r ddeddfwriaeth statudol a osodwyd yn adran 139 Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a'r canllawiau atodol Gweithio gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Rhifyn 3 - Adolygiadau Ymarfer Oedolion (Llywodraeth Cymru, 2016).

Mae'r meini prawf ar gyfer yr adolygiad hwn wedi'i fodloni dan Bennod 7, Adolygiadau Ymarfer Oedolion Estynedig:

Mae'n rhaid i'r Bwrdd gynnal adolygiad ymarfer oedolion estynedig pan fo oedolyn mewn perygl, sydd ar unrhyw adeg yn ystod y chwe mis cyn dyddiad y digwyddiad, wedi bod yn unigolyn y mae'r awdurdod lleol wedi penderfynu cymryd camau i'w ddiogelu rhag camdriniaeth neu esgeulustod yn dilyn ymholiad gan awdurdod lleol, a phan fo'r unigolyn wedi:

- marw; neu
- wedi cael anaf sy'n bygwth bywyd; neu
- wedi dioddef nam difrifol a pharhaol i'w iechyd

Diben yr adolygiad yw nodi unrhyw gyfleoedd dysgu ar gyfer y dyfodol. Mae'n cynnwys ymarferwyr, rheolwyr, uwch swyddogion ac ymgysylltu'n uniongyrchol ag unigolion a theluoedd ac archwilio manylion a chyd-destun gwaith asiantaethau ag unigolyn a'i deulu. Mae'r adolygiad yn ystyried gwaith asiantaethau statudol a'r cynllun(iau) statudol yr oedd ar waith ar gyfer yr unigolyn. Bwriad allbwn adolygiad yw cynhyrchu dysgu proffesiynol a sefydliadol a hyrwyddo gwelliant mewn arferion amddiffyn oedolion rhyngasiantaethol yn y dyfodol (Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl – Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion (Llywodraeth Cymru, 2016).

Caiff yr adolygiad ei gynnal gan ddau adolygydd sy'n gweithio'n agos gyda'i gilydd, ac sydd wedi'u penodi gan y Panel Adolygu. Mae ganddyn nhw gyfrifoldeb i archwilio sut y

cyflawnwyd dyletswyddau statudol yr asiantaethau perthnasol i gyd, ac adrodd ar hyn i'r Panel Adolygu a'r Bwrdd.

Methodoleg

- Cynullwyd Panel Adolygu â Chadeirydd.
- Penodwyd dau Adolygydd.
- Cytunwyd ar Gylch Gorchwyl
- Cafodd llinell amser ei datblygu gan bob asiantaeth
- Cynhyrchodd Aelodau'r Panel grynoded / dadansoddiad o gyfranogiad pob gwasanaeth.
- Cafodd llythyr ei anfon at y teulu yn rhoi'r cyfle iddyn nhw gymryd rhan yn y broses.
- Digwyddiad Dysgu i ymarferwyr.
- Cynhyrchwyd Adroddiad Adolygu yn cynnwys pwyntiau dysgu a chafodd ei gyflwyno i'r Panel Adolygu.
- Cafwyd cyfarfod Panel Adolygu i gwblhau'r adroddiad.
- Datblygwyd cynllun gweithredu o'r argymhellion.
- Bu i'r Adolygwyr a Chadeirydd y Panel Adolygu gyflwyno'r Adroddiad Adolygu i'r Is-grŵp Adolygiad Ymarfer Oedolion Rhanbarthol a Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.
- Cyflwyno i Lywodraeth Cymru.
- Adrodd yn ôl i'r Teulu.
- Cyhoeddi'r Adroddiad ar wefan Bwrdd Diogelu Gogledd Cymru.

Roedd y gwasanaethau a gynrychiolwyd ar y Panel Adolygu fel a ganlyn:

- Iechyd (Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Iarlles Caer)
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwasanaethau Oedolion Awdurdod Lleol

Llinell amser

Mae amserlen yr Adolygiad Ymarfer Oedolion hwn yn mynd o 21 Chwefror 2017, sef y cyfnod ymyrryd sylweddol diwethaf y gwyddys amdano â'r oedolyn, cyn y cyfnod o ddeuddeg mis o ran yr amserlen yr oedd ei angen ar gyfer yr adolygiad, hyd at 21 Ebrill 2021 sef y dyddiad y bu farw'r oedolyn. Cytunwyd ar yr estyniad i'r llinell amser â'r Panel Adolygiad Ymarfer Oedolion ar gais teulu'r oedolyn.

Gofynnwyd hefyd i asiantaethau ystyried eu rhan nhw cyn y llinell amser, os yw'n berthnasol.

Yr oedd gwybodaeth ar gael o ran ymwneud yn broffesiynol â'r oedolyn. Rhoddodd hyn ddarlun cliriach o allu'r oedolyn i weithredu a dealltwriaeth o'i brofiad bywyd o ddydd i ddydd.

Amgylchiadau a arweiniodd at yr adolygiad

Ar 12 Ebrill 2021 cafodd yr oedolyn ei gludo i'r ysbyty mewn ambiwlans ar ôl iddo syrthio gartref. Ar y pryd, dywedodd staff yr ambiwlans a'r ysbyty fod edrychiad corfforol yr oedolyn yn peri cryn bryder, fodd bynnag ni wnaeth staff yr ysbyty nodi unrhyw bryderon yn ymwneud â galluedd meddyliol yr oedolyn. Ar 21 Ebrill 2021 bu farw'r oedolyn ac yr oedd hunan-esgeuluso wedi'i restru yn un o'r achosion marwolaeth. Cadarnhaodd y Crwner nad oedd angen cwest o ganlyniad i benderfyniad yr oedolyn i dynnu'n ôl o gael gwasanaethau.

Gwybodaeth Gyd-destunol a Hanes yr Oedolyn

Dyn wyth deg tair oed oedd yr oedolyn ac yr oedd wedi bod yn ddiffoddwr tân â'r Awyrlu Brenhinol, a bu'n weithiwr dur wedi hynny. Roedd yn dad i ddau o blant, mab a merch, ac mae ei ferch yn ei ddisgrifio'n ddyn teulu swil a oedd yn uchel ei barch yn y gymuned ac yr oedd ganddo amrywiaeth o ddiddordebau yn cynnwys garddio a mynd i ddosbarthiadau ystwythder cŵn. Gwnaeth y Gweithiwr Cymdeithasol a fu'n gweithio gyda'r oedolyn yn 2017 ei ddisgrifio'n ddyn dymunol, cwrtais a diymhongar iawn. Yn ystod ei asesiad â'r Gwasanaethau Cymdeithasol ym mis Awst 2017, dywedodd yr oedolyn "Nid oes gen i ffrindiau na chymdogion da, rwy'n ddyn preifat, rwyf bob amser wedi bod yn un sy'n treulio amser ar fy mhen fy hun. Rwy'n mwynhau fy nghwmni fy hun, darllen, gwneud croeseiriau, edrych ar y rhyngwyd ac ati."

Bu farw gwraig yr oedolyn yn 2003 ac ar ôl ei marwolaeth hi, ymbellhaodd yn raddol o gymdeithas ac aeth y cyswllt â'i deulu'n llai ac yn llai. Yn ystod y cyfnod rhwng 2003 a 2017 ychydig iawn o gyswllt a gafodd yr oedolyn â'i deulu, y gymuned a gwasanaethau ac yn ystod y cyfnod hwn fe esgeulusodd ei hun a'i gartref fwyfwy. Yn ystod yr adolygiad dywedodd y teulu mai ychydig iawn o gyswllt a gawson nhw ag ef yn ystod y cyfnod hwn ar wahân i ambell alwad ffôn a chyfnewid ambell neges e-bost ac na fyddai'n fodlon iddyn nhw ddod i mewn i gartref y teulu. Byddai cymydog i'r oedolyn yn cadw golwg arno a byddai'n cysylltu â merch yr oedolyn pe bai ganddo unrhyw bryderon.

Ym mis Gorffennaf 2017, cysylltodd cymydog yr oedolyn â'r ferch i fynegi pryderon nad oedd wedi ei weld ers sawl diwrnod ac ar ôl ymweld â'i gartref, mynegodd y teulu bryderon nad oedd yr oedolyn gartref ac nad oedd modd cysylltu ag ef. Ar ôl cysylltu â'r Heddlu, cadarnhawyd bod yr oedolyn wedi mynd i Ysbyty Iarllles Caer oherwydd bod ganddo wlserau difrifol ar ei goesau gan nad oedd wedi tynnu ei esgidiau ers dros fis. Cafodd ei weld gan y tîm cyswllt seiciatrig a oedd yn pryderu y gallai amhariad ar y llabed flaen fod yn effeithio ar ei synnwyr cyffredin. Cafodd ei roi ar mirtaxapine a daethpwyd i benderfyniad bod angen gwneud adroddiad oedolyn mewn perygl i'r Gwasanaethau Cymdeithasol ond nid yw'n glir a gafodd yr adroddiad hwn ei wneud. Tra yr oedd yn yr ysbyty, gwnaeth yr oedolyn gyfaddef ei fod yn yfed gormod o alcohol (hyd at bedair uned ar ddeg y dydd) a chafodd ddiagnosis o iselder a galar heb ei ddatrys. Er i'r teulu fynd i'r ysbyty, gwnaeth yr oedolyn wrthod iddyn nhw ei weld a gofynnodd yn benodol nad oedd unrhyw wybodaeth yn cael ei rhannu â nhw am ei gyflwr.

Ar 17 Gorffennaf 2017 mae cofnod meddyg teulu yn llinell amser yr adolygiad ymarfer yn nodi diagnosis o syndrom Diogenes, fodd bynnag, yn ystod yr adolygiad hwn cadarnhaodd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr bod hyn wedi'i nodi ar y system meddygon teulu yn dilyn llythyr gan y teulu ond nad oedd hyn yn gadarnhâd o ddiagnosis ffurfiol.

Pan gafodd ei dderbyn i'r ysbyty, ymwelodd aelodau o'r teulu â chartref yr oedolion a mynegi pryderon â'r meddyg teulu ynghylch y bwriad i ryddhau'r oedolyn o'r ysbyty yn ôl i'w gartref teuluol o ganlyniad i gyflwr gwael y cartref. Gwnaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol gynnal asesiad â'r oedolyn ac yn ystod trafodaethau â'r Gweithiwr Cymdeithasol, dywedodd yr oedolyn ei fod eisieu ymgysylltu â gwasanaethau a'i fod eisieu rhoi'r gorau i yfed gan ei fod yn gwybod ei fod yn gwneud hyn er mwyn anghofio am ei alar.

Ar 7 Awst 2017 cafodd yr oedolyn ei drosglwyddo i ysbyty lleol a chafodd ei weld gan Weithiwr Cymdeithasol a Nyrs Seiciatrig Gymunedol y Tîm Iechyd Meddwl Cymunedol. Nodwyd ei fod yn ymgysylltu'n gadarnhaol â'r gwasanaethau a gynigiwyd.

Yn ystod y digwyddiad dysgu dywedodd y Gweithiwr Cymdeithasol fod yr oedolyn wedi cyfaddef nad oedd wedi glanhau'r tŷ ers i'w wraig farw yn 2003 ond bod ei dŷ yn ei wneud yn hapus ac yn falch. Pan ymwelodd hi â chartref yr oedolyn, yr oedd hi'n gallu gweld mai "bodoli yn y tŷ" yr oedd yn ei wneud yn y bôn. Roedd yn cysgu ar y sofffa, roedd gwydr wedi torri ar y tân nwy ac yr oedd olion o fermin a baw yn y brif ystafell yr oedd yn treulio y rhan fwyaf o'i amser. Yn ystod yr ymweliad â'r cartref, i gefnogi rhyddhau'r oedolyn o'r ysbyty, edrychodd y Gweithiwr Cymdeithasol ym mhob ystafell yn y tŷ gan nodi eu bod nhw'n dderbyniol, ac awgrymodd y dylai gysgu yn yr ail ystafell fyw ond byddai'n gwrthod mynd i'r ystafell hon. Yn ystod yr asesiad, nododd yr oedolyn mai marwolaeth ei gi oedd "yr ergyd olaf". Ar adeg yr asesiad dywedodd y Gweithiwr Cymdeithasol fod yr oedolyn yn lân ac yn edrych yn drwsiadus gan ei fod wedi cael cymorth yn yr ysbyty. Eglurodd yr oedolyn wrth y Gweithiwr Cymdeithasol hefyd nad oedd eisiau i'w deulu weld y cartref gan fod ganddo gywilydd mawr o gyflwr y lle ac nid oedd yn dymuno cael unrhyw gysylltiad â nhw. Nid oedd am iddyn nhw fod yn rhan o'i fywyd ar yr adeg honno chwaith. Cafodd cynllun gofal llawn ei baratoi i helpu i gefnogi'r oedolyn wrth iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty, yn cynnwys cymorth i lanhau ei dŷ ac atgyfeiriadau at wasanaethau iechyd meddwl a chyffuriau ac alcohol. Ychydig cyn iddo gael ei ryddhau, gwrthododd yr oedolyn bob gwasanaeth yr oedd wedi'i drefnu ar ei gyfer ac aeth adref heb unrhyw gymorth.

Yn ystod y digwyddiad dysgu dywedodd y Gweithiwr Cymdeithasol iddi fynd ar absenoldeb salwch o fewn tri diwrnod i'r ymweliad cartref a'r asesiad, a bod yr achos wedi'i drosglwyddo i'r Uwch Ymarferydd ac yn ystod y trosglwyddo hwn gwnaeth yr oedolyn ymddieithrio a gwrthod cymorth.

Ar 19 Medi 2017 cafodd yr achos ei gau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd bod yr oedolyn yn gwrthod cymorth ac ar 21 Medi gwnaeth ef ryddhau ei hun o'r ysbyty cyn i'r gwaith gael ei gwblhau yn ei gartref. Mae cofnodion y meddyg teulu'n nodi nad oedd unrhyw bryder yn ymwneud â'i allu i wneud y penderfyniad i ryddhau ei hun o'r ysbyty. Mae'n bwysig nodi na chwblhawyd unrhyw asesiad galluedd ffurfiol gan naill ai'r Gwasanaethau Cymdeithasol neu Iechyd.

Rhwng 21 Medi a 17 Hydref 2017 cafodd yr oedolyn ei weld gan y Nyrs Seiciatrig Gymunedol a'r Nyrsys Ardal fwy nag unwaith a nodwyd bod ei gyflwr yn gwella a'i fod yn gwneud trefniadau i wneud gwelliannau i'r cartref. Nid oes unrhyw gofnodion i ddangos a aethpwyd ar drywydd hyn i sicrhau y cafodd y gwelliannau i'r cartref eu gwneud.

Dywedodd y teulu, ar ôl iddo ddod adref o'r ysbyty, ei fod wedi cysylltu â nhw ar e-bost dair gwaith yn ystod mis Medi a Hydref 2017. Y tro cyntaf y cysylltodd â nhw (Medi 2017) dywedodd ei fod wedi rhyddhau ei hun o'r ysbyty ac nad oedd dim yn gweithio gartref. Roedd wedi ceisio archebu oergell ac ychydig o fwyd ond nid oedd y taliadau wedi mynd drwodd a phe bai'n mynd yn ôl i'r ysbyty, ni fyddai am i'w ferch gysylltu ag ef. Mewn e-bost diweddarach ym mis Hydref, dywedodd ei fod wedi archebu car newydd, bod plymwr yn y tŷ yn trwsio'r system wresogi a rhannodd ei gyfeiriad e-bost newydd. Ychydig wedi hyn, stopiodd yr oedolyn anfon negeseuon at y teulu.

Ym mis Ionawr 2018, cafodd yr oedolyn ei weld gan glinig wlsarau coesau ac mae cofnodion y llinell amser yn nodi ei fod wedi gwrthod y brechlyn rhag y fflw tymhorol, ei fod yn fyr ei anadl a bod ei goesau'n gwella a bod y nyrs ardal yn rheoli'r gorchuddion. Ychydig wedi hyn, gwrthododd yr oedolyn unrhyw gymorth parhaus gan y Nyrs Ardal o ran rheoli'r gorchuddion. Dyma'r tro olaf i'r oedolyn gytuno i asesiad iechyd a thriniaeth cyn cael ei dderbyn i ysbyty Iarlls Caer yn 2021.

Ar 17 Medi 2019 galwodd y Meddyg Teulu i weld yr oedolyn gartref oherwydd bod pryderon wedi'u mynegi ynghylch y ffaith nad oedd unrhyw un wedi'i weld ers peth amser a bod angen adolygu ei feddyginiaeth ond nid oedd yr oedolyn yn fodlon i'r meddyg teulu ddod i mewn i'r tŷ felly dim ond ar stepen y drws yr oedd y meddyg teulu'n gallu gweld yr oedolyn. Rhwng 9 Hydref 2019 a 11 Medi 2020, rhwng y Nyrs Ardal a'r Meddyg Teulu, bu pum ymgais arall i gysylltu â'r oedolyn ond un ai nad oedd yn ymateb i'r cyswllt neu yr oedd yn gwrthod mynediad i'r cartref. Yn dilyn ymweliad stepen drws ar 17 Hydref 2019, nododd y Meddyg Teulu ar y pryd: "roedd y claf yn edrych yn flêr, roedd yr ardd wedi tyfu'n wyllt ac yr oedd y tŷ yn edrych yn anniben drwy'r ffenestri". Ceisiodd y feddygfa gysylltu â'r teulu ond yr oedd y manylion cyswllt ar gofnod yn anghywir ac ni chysylltwyd â'r teulu. Ar 18 Chwefror 2020 cysylltodd y feddygfa â'r oedolyn unwaith eto a gwrthododd y gofal a'r cymorth a gynigiwyd. Gofynnwyd pam nad oedd wedi casglu ei feddyginiaeth a gwrthododd yr oedolyn gael ymweliad. Yn ystod y cyfnod hwn rhwng Hydref 2019 a Chwefror 2020 cynhaliwyd tri chyfarfod Tîm Aml Ddisgyblaeth yn fewnol yn y feddygfa (yn cynnwys y meddyg teulu, rheolwr ymarfer, ymarferydd nyrsio uwch, nyrs practis) ac ar 19 Chwefror 2020 cyflwynwyd adroddiad Oedolyn mewn Perygl i Dîm Un Pwynt Mynediad Gwasanaethau Cymdeithasol Sir y Fflint. Roedd yr adroddiad yn nodi: "Mae'r claf yn byw ar ei ben ei hun, mae ganddo Dementia, Diabetes, Asthma a Gorbwysedd. Hanes o Iselder ac encilio. Peidio â chydymffurfio â meddyginiaeth, gwrthod monitro a mewnbwn gofal iechyd. Ceisiwyd gwneud ymweliad cartref ar 17/10/19 ond gwrthodwyd mynediad i'r eiddo. Roedd y claf yn edrych ychydig yn flêr, roedd yr ardd wedi tyfu'n wyllt ac yr oedd y tŷ'n edrych yn anniben drwy'r ffenestr. Cwestiynu ei alluedd o ganlyniad i ddiagnosis o Dementia a dirywiad yn ei iechyd meddwl"

Mewn ymateb i'r adroddiad Oedolyn Mewn Perygl ffoniodd yr Uwch Ymarferydd o'r tîm Un Pwynt Mynediad yr oedolyn i drafod ei sefyllfa ac i gadarnhau a oedd angen cymorth arno, a gwrthododd yr oedolyn y cynnig am unrhyw gymorth. Yn ystod y digwyddiad dysgu dywedodd yr Uwch Ymarferydd fod yr oedolyn wedi rhoi'r ffôn i lawr arnyn nhw oherwydd yr oedd wedi'i synnu gan yr alwad gan nad oedd wedi rhoi caniatâd i'r atgyfeiriad gael ei wneud gan y Meddyg Teulu i'r Gwasanaethau Cymdeithasol.

Cafwyd trafodaeth achos rhwng yr Uwch Ymarferydd, y Rheolwr Tîm a'r gweithiwr cymorth Dementia a chytunwyd ar gam gweithredu i'r gweithiwr cymorth Dementia sef cwblhau gwriad lles, ond ni ddigwyddodd hyn yn y pen draw oherwydd bod yr oedolyn yn gwrthod cymorth, a chafodd yr achos ei gau gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar 23 Mawrth 2020. Nodir yng nghofnodion y Gwasanaethau Cymdeithasol nad oedd unrhyw reswm i gwestiynu ei alluedd (er bod ei alluedd wedi'i gwestiynu yn atgyfeiriad y Meddyg Teulu). Nid oes unrhyw gofnod bod y Gwasanaethau Cymdeithasol wedi cysylltu â'r Meddyg Teulu i adrodd yn ôl bod cymorth wedi'i wrthod ac nid oes tystiolaeth ychwaith bod y meddyg teulu wedi mynd ar drywydd yr adroddiad i gadarnhau bod camau gweithredu wedi'u cymryd.

Ym mis Mawrth 2020, roedd y wlad dan gyfyngiadau'r cyfnod clo o ganlyniad i bandemig COVID a chysylltodd merch yr oedolyn ag ef bryd hynny i weld a oedd angen unrhyw gymorth arno a chytunodd i'r teulu wneud rhywfaint o siopa iddo. Byddai'n rhoi rhestr iddyn nhw o'r hyn yr oedd ei angen arno dros y ffôn, a dywedon nhw ei fod yn swnio'n iawn pan wnaethon nhw siarad ag ef. Yn ystod yr adolygiad dywedodd y teulu y bydden nhw'n yn mynd â bwyd at y giât ac y byddai'n codi llaw yn y ffenestr ond ni fyddai modd cael sgwrs ag ef ac ni fyddai'n fodlon iddyn nhw ddod i mewn i'r tŷ. Y tro cyntaf y gwnaeth y teulu fynd â siopa i'r tŷ, dywedodd y teulu fod yr oedolyn wedi tapio ei gerdyn banc a'i rif pin i'r drws ffrynt a nodyn yn dweud wrth y teulu i dynnu £200 am gost y siopa. Dywedodd merch yr oedolyn, yn ystod y cyfnod hwn o gyswllt pan fydden nhw'n gwneud ei siopa drosto, y bydden nhw'n siarad yn fwy rheolaidd ar y ffôn a byddai hi'n gofyn am gyngor am yr ardd ac weithiau byddai'n gadael llyfrau garddio iddi pan fyddai e'n gadael y cerdyn banc ar gyfer y siopa. O ran merch yr oedolyn, dyma'r gorau yr oedd eu perthynas nhw wedi bod ers sawl blwyddyn.

Ym mis Ionawr 2021 gwrthododd yr oedolyn gael ei frechiad rhag y fflw tymhorol.

Ar 8 Ionawr 2021 aeth yr oedolyn i'r feddygfa ar gyfer ei frechlyn COVID cyntaf. Yn ystod y digwyddiad dysgu cadarnhaodd y parafeddyg a aeth at yr oedolyn ar 12 Ebrill fod yr oedolyn wedi dweud wrtho ei fod wedi mynd i'r feddygfa i gael ei frechiad ac nad oedd ei edrychiad yn wahanol i'r ffordd yr oedd ef wastad wedi edrych, yn cynnwys y ffaith nad oedd wedi newid ei ddillad ers dros ddwy flynedd. Mae gweithwyr proffesiynol a'r teulu wedi cwestiynu sut na allai ei edrychiad fod wedi achosi pryder ymhlith staff y clinig, ond nid oedd nodyn na chofnod wedi'i wneud o unrhyw bryderon. Nodwyd bod yr oedolyn wedi gallu defnyddio'r rhyngwyd a'i ffôn symudol yn hyderus, a threfnodd yr apwyntiad a mynd i'r clinig yn annibynnol. Yn ystod y digwyddiad dysgu cadarnhaodd cynrychiolydd y feddygfa fod y rhaglen brechu torfol yn cael ei threialu ar hyn o bryd a'r clinig oedd un o'r meddygfeydd teulu cyntaf i'w chyflwyno a'u bod nhw'n gweld hyd at 650 o bobl mewn diwrnod. Yn rhan o'r broses ni fyddai'r oedolyn wedi gorfod aros pymtheg munud ar ôl ei frechiad yn y man aros a fyddai wedi lleihau'r cyfleoedd ar gyfer cyswllt rhwng yr oedolyn ac unrhyw aelod o'r tîm brechu. Cadarnhawyd hefyd bod y tîm brechu COVID wedi cael hyfforddiant diogelu sylfaenol yn rhan o gael eu cyflogi gan y sefydliad ond nid yw trylwyredd yr hyfforddiant hwn yn glir.

Ar 12 Ebrill 2021 galwodd yr oedolyn 999 yn gofyn am ambiwlans gan ei fod wedi cwmpo yn ei gartref (mae'r Gwasanaeth Ambiwllans wedi cadarnhau bod hwn wedi'i gofnodi'n godwm heb anaf). Nodir yn y llinell amser y bu oedi o chwe awr a hanner cyn i'r ambiwlans allu mynd i'r cartref. Mae'n bwysig nodi'r darlun cenedlaethol ar draws Gwasanaeth Ambiwllans Cymru ar y pryd a'r pwysau ar y gwasanaethau a arweiniodd at oedi hir. Yn ystod oriau mân y bore ar 13 Ebrill 2021 cafodd yr oedolyn ei dderbyn i ysbyty Iarlls Caer.

Wrth adolygu'r cofnodion a rannwyd a'r datganiadau a rannodd ymarferwyr yn y digwyddiad dysgu, cyfeiriwyd at gyflwr corfforol yr oedolyn a gwir raddau'r hunan-esgeulusto.

Mae'r datganiadau sydd wedi'u rhannu gan y parafeddygon a oedd yn bresennol a datganiadau'r teulu a aeth i gartref yr oedolyn ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty yn disgrifio cyflwr gwael iawn y cartref yr oedd yr oedolyn yn byw ynddo cyn ei farwolaeth, yn cynnwys: siopa wythnosol wedi'i ddanfôn i'r tŷ wedi'i adael yn y cyntedd a'r gegin a'r

nwyddau heb eu cyffwrdd ac yn dal i fod yn y bagiau (dywedodd y teulu pan wnaethon nhw ymweld â'r cartref, yr oedd yn amlwg bod yr oedolyn wedi bod yn bwyta'r cacennau hufen a oedd bob amser ar ei restr siopa); roedd yr amgylchedd byw yn fudr ac yn llawn pryfed. Cafwyd tystiolaeth hefyd nad oedd yr oedolyn wedi bod yn cymryd ei feddyginiaeth ar gyfer problemau'r galon, diabetes ac asthma gan fod ei feddyginiaeth wedi'i ddarganfod yn garej y cartref. Gwnaeth Gwasanaeth Ambiwlans Cymru gynhyrchu adroddiad Oedolyn Mewn Perygl i'r Gwasanaethau Cymdeithasol oherwydd eu bod nhw'n pryderu'n fawr.

Er gwaethaf graddau ei anafiadau a'i edrychiad corfforol a chyflwr y cartref, nododd staff yr ysbyty nad oedd unrhyw bryderon ynghylch ei alluedd meddyliol a'r teimlad a gawson nhw oedd ei fod wedi "rhoi'r ffidl yn y to". Yn ystod y digwyddiad dysgu dywedodd y parafeddyg a oedd yn bresennol fod yr oedolyn wedi dechrau siarad yn yr ambiwlans am y ffaith na fyddai'n fodlon i unrhyw un fynd i mewn i'w gartref a rhoddodd yr argraff ei fod yn falch bod rhywun yno i helpu ac nad oedd angen iddo fod â chywilydd mwyach a siaradodd am ei deulu yn dod yn ôl i'r tŷ. Nodwyd ei fod wedi dweud "Rwy'n mynd i roi trefn ar fy mywyd."

Ar 21 Ebrill 2021, yn drist iawn, bu farw'r oedolyn ac yr oedd hunan-esgeulustod wedi'i restru yn un o'r achosion marwolaeth.

Safbwynt y Teulu

Cafodd y ferch a'r mab yng nghyfraith wybod am yr adolygiad ymarfer oedolion hwn a chwason nhw eu gwahodd i gyfarfod â'r adolygwyr. Gwnaeth un o'r adolygwyr gyfarfod â nhw yn eu cartref ar 8 Gorffennaf 2022. Eglurodd yr adolygydd bwrrpas yr ymweliad ac esboniodd bod hyn yn gyfle iddyn nhw rannu eu safbwyntiau. Gwnaethon nhw groesawu'r adolygydd i'w cartref ac yr oedden nhw'n ymddangos yn gyfforddus yn siarad yn agored am eu profiad.

Mae sylwadau a wnaed gan y teulu wedi'u nodi uchod mewn cysylltiad â gwybodaeth gyd-destunol a hanes yr oedolyn. Yn ogystal â'r rhain, nododd y teulu'r sylwadau a'r myfyrdodau canlynol.

Rhannodd y teulu eu galar a'u tristwch yn sgil marwolaeth eu tad a pha mor anodd yr oedd wedi bod iddyn nhw o ran y ffaith bod eu perthynas nhw ag ef wedi dirywio yn y ffordd a wnaeth dros y blynyddoedd. Er y bu cyfnodau o gyswllt rhyngddyn nhw, yr oedd yn aml o bellter, fodd bynnag, gwnaethon nhw rannu enghreifftiau o sut yr oedden nhw'n credu bod teulu yn bwysig i'r oedolyn, er enghraifft, ar ben-blwydd ei ferch yn 40 oed, aeth yr oedolyn i dŷ ei ferch â chi bach (y brîd yr oedd hi wastad wedi bod eisiau ei gael) a chryfhaodd hyn eu perthynas ar y pryd. Pan yr oedd y ferch yn ei gwaith, byddai ei thad yn casglu'r ci bach o'r tŷ ac yn mynd ag ef am dro. Dywedodd y teulu hefyd, pan yr oedden nhw'n gallu mynd i mewn i dŷ'r oedolyn, gwnaethon nhw ddod o hyd i luniau o'r teulu yr oedd ef wedi'u hargraffu o Facebook ac wedi'u fframio. Rhannodd merch yr oedolyn fyfyrdodau o ddiddordeb y ddau ohonyn nhw mewn garddio hefyd.

Roedd y teulu'n ymwybodol bod yr oedolyn yn astmatig ac yr oedd yn cael apwyntiadau rheolaidd â'r meddyg teulu ynghyd â phrofion o'i bwysedd gwaed, ac maen nhw'n ymwybodol ei fod wedi siarad am y ffaith nad oedd yn ymdopi yn ystod un adolygiad â'r meddyg teulu, ac o ganlyniad i hynny ei fod wedi'i roi ar wrth-iselyddion. Roedden nhw hefyd yn ymwybodol bod yr oedolyn ar feddyginiaeth arall ac fe wnaethon nhw gwestiynu sut yr oedd ei feddyginiaeth yn cael ei roi ar bresgripsiwn iddo o ystyried nad oedd yn mynd

i'r feddygfa ar gyfer adolygiadau. Dywedodd y teulu'n ddiweddarach, pan wnaethon nhw ymweld â chartref yr oedolyn ar ôl iddo gael ei dderbyn i'r ysbyty am y tro olaf, nad oedd ei feddyginiaeth wedi'i gymryd a chafwyd hyd iddo yn y garej.

Dywedodd y teulu eu bod nhw'n ymwybodol bod yr oedolyn wedi gwrthod unrhyw ymweliadau cartref gan wasanaethau gan nad oedd yn fodlon â'r ffaith mai'r unig amser yr oedd modd iddyn nhw ymweld oedd am 8am, ac nid oedd hyn yn gyfleus iddo.

Cwestiynodd y teulu pa wiriadau a wnaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol ac lechyd pan roddwyd gwybod iddyn nhw am y pryderon o ran yr oedolyn o ystyried cyflwr yr un ystafell fyw yr oedd yr oedolyn yn byw ynddi. Gwnaethon nhw nodi pe bai unrhyw un wedi edrych drwy'r ffenestr, y bydden nhw wedi'u harwain i gredu bod amodau'r cartref yn foddhaol gan nad oedd yr ystafelloedd eraill i gyd wedi'u cyffwrdd ers marwolaeth ei wraig.

Wrth fyfyrion ar y ffaith nad oedd eu tad nhw wedi cael ei weld gan unrhyw un ers cyhyd a chan wybod am gyflwr corfforol yr oedolyn y tro olaf y cafodd ei dderbyn i'r ysbyty, gwnaethon nhw gwestiynu sut yr oedd wedi mynd i gael ei frechiad COVID dri mis cyn ei farwolaeth a sut nad oedd neb yn y clinig yn pryderu am ei gyflwr, er enghraifft ei oglau.

Mynegodd y teulu eu tristwch yn y ffaith yr oedden nhw'n credu bod eu tad nhw'n gwybod ei fod yn mynd i farw oherwydd yr eitemau personol yr oedd ganddo pan gafodd ei dderbyn i'r ysbyty am y tro olaf. Roedd y rhain yn cynnwys ei gerdyn adnabod, manylion banc a swm mawr o arian parod. Mae'n bwysig myfyrion ar yr adeg hon ar y sylwadau a wnaeth y parafeddygon a oedd yn bresennol, sef bod yr oedolyn wedi rhannu ymdeimlad o ryddhad â nhw ac ymdeimlad o fod yn ddiolchgar y byddai'n gallu cael cymorth, cael trefn ar ei fywyd a chael ei deulu'n ymweld â'i gartref unwaith eto.

Digwyddiad Dysgu

Cynhaliwyd digwyddiad dysgu ar 07/09/2022. Cafodd y diwrnod ei hwyluso gan y ddau adolygydd annibynnol, nid oedd Cadeirydd y Panel yn gallu bod yn bresennol oherwydd trawyd ef yn sâl ar fore'r digwyddiad dysgu. Cafodd ymarferwyr a oedd ynghlwm â'r oedolyn yn uniongyrchol eu gwahodd i'r digwyddiad dysgu i ystyried eu cyfranogiad, ymarfer, asesiadau a phrosesau gwneud penderfyniadau.

Roedd cynrychiolaeth asiantaeth yn y digwyddiad dysgu yn cynnwys:

- lechyd (Bwrdd lechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr ac Iarlles Caer)
- Ymddiriedolaeth GIG Gwasanaeth Ambiwlans Cymru
- Gwasanaethau Oedolion Awdurdod Lleol

Gwnaeth y digwyddiad dysgu dynnu sylw at arferion da rhwng pob gweithiwr proffesiynol a oedd yn ymwneud â'r oedolyn ac yr oedd yn amlwg bod pob gweithiwr proffesiynol wedi ceisio ymgysylltu a'r oedolyn a'i gefnogi. Roedd y gweithwyr proffesiynol i gyd a oedd yn gweithio gyda'r oedolyn yn ymarferwyr profiadol ac yr oedden nhw'n cyfathrebu â'u hasiantaethau sy'n bartneriaid, fodd bynnag, cafodd ansawdd y wybodaeth a rannwyd ei nodi'n faes dysgu, fel sydd wedi'i nodi yn yr adroddiad.

Gwnaeth y digwyddiad dysgu hefyd gydnabod y cyfyngiadau o ran creu newid ystyrion ar gyfer yr oedolyn, a hynny wrth weithio drwy gyfyngiadau'r pandemig.

Yn ystod y digwyddiad dysgu, tynnodd y gweithwyr proffesiynol sylw at feysydd dysgu allweddol a fydd yn cael eu nodi yn yr adroddiad hwn.

Ymarfer a dysgu sefydliadol

Nodi pob pwylt dysgu unigol sy'n codi yn yr achos hwn (yn cynnwys amlygu ymarfer effeithiol) ac amlinelliad bras o'r amgylchiadau perthnasol

Mae'r themâu canlynol yn ymwneud ag ymarfer a dysgu sefydliadol wedi'u nodi yn yr adolygiad.

Asesiad a dealltwriaeth o alluedd meddyliol pan fo unigolyn yn dewis peidio ag ymgysylltu â gwasanaethau

Drwy gydol y cyfnod sydd wedi'i gynnwys yn yr adolygiad hwn, bu sawl achlysur pan gafodd yr oedolyn ei asesu gan ymarferwyr ym maes gofal cymdeithasol ac iechyd a chafwyd nifer o achosion pan ddewisodd yr oedolyn beidio ag ymgysylltu ag ymarferwyr a derbyn y cymorth yr oedd yn cael ei gynnig. Gan ystyried hyn, un o'r themâu a gododd dro ar ôl tro yn yr adolygiad oedd, a gafodd galluedd meddyliol yr oedolyn ei asesu a'i ddeall a sut gwnaethpwyd hyn, yn enwedig o ystyried natur a'r pryderon yn ymwneud â'r oedolyn a'i benderfyniadau i wrthod cymorth rhwng 2017 a 2021.

Nid oes unrhyw dystiolaeth wedi'i gyflwyno yn ystod yr adolygiad i nodi bod asesiad ffurfiol o alluedd meddyliol wedi'i gynnal ac mae ymarferwyr a oedd mewn cysylltiad â'r oedolyn yn ystod y cyfnod amser wedi dweud nad oedd unrhyw reswm i amau ei alluedd meddyliol pan wnaethon nhw ryngweithio â'r oedolyn.

Yn ei adolygiad o hunan-esgeulustod ac adolygiadau diogelu oedolion mae Preston-Shoot (2018) yn tynnu sylw at achosion o alluedd anwadal na aethpwyd i'r afael â nhw ac mae'n nodi bod 'galluedd meddyliol yn cael ei ragdybio, er gwaethaf hanes o 'benderfyniadau annoeth' weithiau, yn hytrach na'i asesu, yn cynnwys ystyried dewisiadau cyfreithiol i ddiogelu'r unigolyn. Yn achos yr oedolyn y mae'r adolygiad hwn yn sôn amdano, mae'n amlwg bod ei alluedd wedi'i ragdybio ar sawl achlysur, ar sail y ffaith ei fod wedi nodi nad oedd yn credu bod angen cymorth arno. Mae Preston-Shoot hefyd yn cyfeirio at asesiadau nad ydyn nhw'n cael eu hailystyried a'r angen i ystyried effaith amhariad swyddogaeth gweithredol yr ymennydd ochr yn ochr â ffactorau cyd-destunol fel amgylchedd y cartref a deinameg y teulu. Mae hefyd yn nodi pwysigrwydd y "gall asesiadau cadarn, sydd wedi'u lleoli yn natblygiad hanesyddol yr achos, helpu i fynd i'r afael â ... pheryglon sy'n gysylltiedig â dirywiad graddol... a phwysigrwydd ystyried ac ymateb i batrymau sy'n ailadrodd". Mae'n mynd yn ei flaen i dynnu sylw at arwyddocâd peidio â gweld pob atgyfeiriad neu dderbyniad i'r ysbyty ar wahân ac yn hytrach na hyn, bod anghenion a pheryglon yn cael eu hasesu yng nghyd-destun hanes yr unigolyn. Yn 2017 mae'n amlwg bod y ffactorau cyd-destunol hyn wedi'u hystyried yn rhan o'r asesiad gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, yn 2020 cyflwynodd y feddygfa adroddiad Oedolyn mewn Perygl i'r awdurdod lleol yn seiliedig ar eu pryderon yn ymwneud â'r ffaith nad ydyn nhw'n gallu cysylltu â'r oedolyn; pryderon amdano'n byw ar ei ben ei hun; Dementia, Diabetes, Asthma a Gorbwysedd; hanes o iselder ac encilio; diffyg cydymffurfio â meddyginiaeth, gwrthod monitro a mewnbwn gofal iechyd; edrychiad ychydig yn flêr; gardd wedi tyfu'n wyllt; tŷ yn edrych yn anniben drwy'r ffenestr. Mae'r adroddiad hefyd yn

cwestiynu ei alluedd o ganlyniad i ddiagnosis o ddementia a dirywiad yn ei iechyd meddwl. Ni chynhaliwyd unrhyw asesiad ffurfiol gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd ac nid yw'n amlwg yr ailymwelwyd ag asesiadau a bod gwybodaeth gyd-destunol wedi'i hadolygu, cafodd yr achos ei gau oherwydd bod yr oedolyn wedi dweud ei fod yn ymdopi, ei fod wedi cyflwyno ei bresgripsiwn ac nad yw'n credu bod angen cymorth arno. Yn ystod y digwyddiad dysgu, dywedodd y Gweithiwr Cymdeithasol a oedd yn cynnal y drafodaeth â'r oedolyn ar y pryd nad oedd rheswm i bryderu am ei alluedd.

Ar 18 Medi 2017, cafodd Asesiad Gwybyddol Addenbrooke¹ llawn ei gynnal gan gynhyrchu sgôr o 71/100 (yn llinell amser yr asiantaeth ar gyfer yr adolygiad hwn mae'n nodi bod hyn yn awgrymu meysydd o fân amhariad ac amhariad cymedrol) a nodir bod datganiadau'r oedolyn ei hun yn awgrymu nad yw'n deall llawer am anghenion gofal a'i fod wedi gwrthod derbyn gofal ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty. Ar 19 Medi 2018, ffoniodd y Gweithiwr Cymdeithasol y Nyrs Seiciatrïg Gymunedol i roi gwybod iddyn nhw bod yr achos yn cael ei gau gan fod yr oedolyn yn gwrthod gofal cymdeithasol. Ni wnaethpwyd cofnod ar y pryd am y drafodaeth ynghylch a oedd gan y gŵr alluedd i wrthod gofal. At hyn, ar 21 Medi 2017 cafodd yr oedolyn ei ryddhau o'r ysbyty ar ei gais ei hun ac mae'r llinell amser ar gyfer yr adolygiad yn nodi na fynegwyd unrhyw bryderon ynghylch ei allu i wneud y penderfyniad hwn. Mae'n aneglur a gafodd canlyniadau'r asesiad hwn eu rhannu ymhlith yr ymarferwyr a oedd yn rhan o'r asesiad a'r cynllun i ryddhau'r oedolyn o'r ysbyty. Mae hefyd yn codi'r cwestiwn a gollwyd cyfle i gymhwyso'r Ddeddf Galluedd Meddyliol ac egwyddorion budd pennaf yn dilyn yr asesiad hwn. Yn ystod y digwyddiad dysgu, holodd ymarferwyr a oedd yr asesiad yn ystyried faint o alcohol yr oedd yn ei yfed a pham na chafodd yr asesiad ei ailadrodd.

Rhoi gweithdrefnau diogelu ar waith a'r gallu i weithredu chwilfrydedd proffesiynol

Yn ei adolygiadau am hunan-esgeulustod a diogelu oedolion mae Preston-Shoot (2018) yn tynnu sylw at effaith gwybodaeth brin a defnyddio llwybrau diogelu ac mae'n nodi "pwyderon am reolaeth wael ar rybuddion, methiant i ddilyn gweithdrefnau, oedi wrth fynegi neu fynd ar drywydd pwyderon, cyfathrebu gwael am lefelau peryglon a chyfleoedd a gollwyd i sicrhau gwaith aml-asiantaeth a chytuno ar gynlluniau rheoli peryglon".

Wrth ystyried gweithredu prosesau diogelu statudol yn ystod cyfnod yr adolygiad, mae'n bwysig nodi bod Cymru'n wynebu newid mewn gweithdrefnau o weithdrefnau Diogelu Oedolion Diamddiffyn (2013) yn 2016 i weithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru yn 2020² a Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl (Cyfrol 6 Ymdrin ag Achosion Unigol i Amddiffyn Oedolion Sy'n Wynebu Risg)³. Cafodd Gweithdrefnau Diogelu Cymru ar gyfer Oedolion Mewn Perygl eu gweithredu ac yr oedd hyfforddiant yn cael ei roi gan Fwrdd Diogelu Gogledd Cymru ond nid yw'n glir i ba raddau y cafodd yr hyfforddiant hwn ei roi i bob aelod o staff a oedd yn gweithio ym maes iechyd a gofal cymdeithasol. Yn y Gweithdrefnau Diogelu ceir diffiniadau newydd o 'oedolion mewn perygl', dyletswyddau statudol newydd i adrodd am bryderon ynghylch oedolion mewn perygl a phrosesau

¹Mae arholiad gwybyddol Addenbrooke III yn brawf sgrinio sy'n cynnwys profion canolbwyntio, cyfeiriadedd, cof, iaith, sgiliau gweledol-ofodol a canfyddiadol gweledol. Mae'n ddefnyddiol wrth ganfod nam gwybyddol, yn enwedig wrth ganfod clefyd Alzheimer a dementia 'frontotemporal'

²Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

³Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

newydd i'w dilyn ar gyfer rheoli'r ymateb i adroddiadau a threfniadau i amddiffyn oedolion rhag cam-drin ac esgeulustod. Yn y diffiniadau o 'oedolion mewn perygl' yn y gweithdrefnau caiff hunan-esgeulustod ei gynnwys⁴. Mae'r ddyletswydd i adrodd o fewn y gweithdrefnau yn nodi y dylid llunio adroddiad pan fydd pryderon am oedolyn mewn perygl sydd:

1. yn profi, neu mewn perygl o, gamdriniaeth neu esgeulustod;
2. angen gofal a chymorth (boed yr awdurdod lleol yn diwallu'r anghenion hynny ai peidio) ac
3. yn methu ag amddiffyn ei hun yn erbyn y gamdriniaeth neu'r esgeulustod neu'r perygl ohono o ganlyniad i'r anghenion hynny.⁵

Wrth adolygu'r wybodaeth a roddwyd ar gyfer yr adolygiad mae'n amlwg y collwyd cyfleoedd i nodi'r oedolyn yn oedolyn mewn perygl.

- Ar 7 Gorffennaf 2017 cafodd yr oedolyn ei weld gan y tîm cyswllt seiciatrig yn ysbyty Iarlles Caer a nodwyd yr oedd angen mewnbwn gan y Gwasanaethau Cymdeithasol ac yntau'n oedolyn mewn perygl. Tra bod atgyfeiriad yn cael ei wneud, aseswyd yr achos dan Ran 3 o Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 ac ni chafodd ei ystyried drwy brosesau diogelu.
- Ym mis Ionawr 2018 cafodd yr oedolyn ei weld gan y clinig wlsarau coesau ac ni aeth i unrhyw adolygiadau eraill a drefnwyd gan broffesiynau iechyd tan 2020.
- Ym mis Hydref 2019, cafodd pryder ei fynegi am y tro cyntaf gan y feddygfa am yr oedolyn a'r ffaith nad oedd yn ymgysylltu â'r feddygfa yn ogystal â phryderon am ei feddyginiaeth a thrafododd Tîm Aml Ddisgyblaeth (mewnol yn y feddygfa ac nid Tîm Aml Ddisgyblaeth Aml-asiantaeth) y pryderon hyn ar 15 Hydref 2019. Bu rhagor o ymdrechion i ymgysylltu â'r oedolyn ond heb lwyddiant a chynhaliwyd cyfarfodydd Tîm Aml Ddisgyblaeth ychwanegol rhwng y dyddiad hwn a mis Chwefror 2020 (ac arferion da nodedig o ran ymgais y nyrs practis i geisio ymgysylltu â'r oedolyn oherwydd bod ganddi berthynas effeithiol sefydledig â'r oedolyn) ond er hynny, ni chafodd unrhyw adroddiadau Oedolyn mewn Perygl eu gwneud tan 19 Chwefror 2020. Yn ystod y digwyddiad dysgu, gofynnwyd i gynrychiolwyr y feddygfa beth oedd y rheswm am hyn a nodwyd nad oedden nhw'n credu bod ganddyn nhw ddigon o wybodaeth ac na roddwyd cynnig ar bob ffordd o gysylltu â'r oedolyn (dylid nodi y gwnaed ymdrechion i gysylltu â merch a mab yr oedolyn ond nid oedd y rhain yn llwyddiannus gan fod y manylion cyswllt yn anghywir)
- Ar 19 Chwefror 2020 gwnaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol reoli'r adroddiad o fewn y tîm Un Pwynt Mynediad ac ni chafodd ei ddwyn i sylw Tîm Diogelu'r Gwasanaethau Cymdeithasol

Yn ogystal â'r pwyntiau sydd wedi'u nodi uchod, mae hefyd wedi'i nodi yn llinell amser yr adolygiad hwn bod y feddygfa wedi cyflwyno adroddiad Oedolyn mewn Perygl ar 19 Chwefror 2020, ac ar 4 Mawrth 2020 yr oedden nhw'n dal i aros am ganlyniad yr adroddiad. Yn ystod y digwyddiad dysgu dywedodd cynrychiolydd y feddygfa nad oedd y feddygfa wedi cael unrhyw wybodaeth yn ymwneud â'r adroddiad a oedd wedi'i lunio ac unrhyw benderfyniadau a wnaed a chamau gweithredu a gymerwyd mewn ymateb iddo. Ar adeg llunio adroddiad yr oedolyn mewn perygl nid oedd Gweithdrefnau Diogelu Cymru

⁴ <https://www.safeguarding.wales/en/adu-i/adu-i-ap/a1p-p2/>

⁵ <https://www.safeguarding.wales/en/adu-i/adu-i-a2/a2-p2/>

wedi'u rhoi ar waith, sydd bellach yn ei gwneud yn ddyletswydd ar yr awdurdod lleol i gydnabod derbyn yr adroddiad o fewn 7 diwrnod gwaith â'r sawl sy'n adrodd⁶. Os nad oedd y sawl sy'n adrodd yn cael hwn, yr oedd yn rhaid iddyn nhw gysylltu â'r Gwasanaethau Cymdeithasol eto. Pan yr oedd y feddygfa'n llunio'r adroddiad, yr oedd Cymru'n gweithio tuag at 'Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl 2019'⁷ sy'n nodi "os nad yw'r sawl sy'n adrodd wedi cael cydnabyddiaeth o fewn 7 diwrnod ar ôl llunio'r adroddiad cychwynnol yn ysgrifenedig, dylai bob amser gysylltu â Gwasanaethau Cymdeithasol. Ni ddigwyddodd hyn."

Mae'n bwysig tynnu sylw at y ffaith nad oedd y prosesau sydd ar waith o fewn gweithdrefnau Diogelu Cymru i allu creu darlun mwy holistig o bryderon yn ymwneud â pheryglon i unigolion wedi'u dilyn ar y pryd ac nid oedd hyn yn caniatáu ar gyfer dadansoddiad cyffredinol o sefyllfa'r oedolyn a mewnbwn gan amrywiaeth o asiantaethau. Yn ei adolygiad, mae Preston-Shoot (2018) yn tynnu sylw at sut mae gweithio effeithiol yn dibynnu ar rannu gwybodaeth ac mae'n tynnu sylw at effaith enghreifftiau o ddulliau gwael o rannu gwybodaeth nad ydyn nhw'n galluogi cyd-ddealltwriaeth o beryglon neu ddull aml-asiantaeth a gytunwyd. Mae'n cyfeirio at enghreifftiau yn cynnwys peryglon sy'n deillio o ddiffyg ymgysylltu neu straen meddyliol sy'n arwain at golli cyfleoedd asesu neu ddiogelu a darpariaeth gwasanaeth di-drefn neu hwyr.

Ansawdd y wybodaeth sy'n cael ei rhannu

Yn ystod yr adolygiad yr oedd yn amlwg bod cyfathrebu'n digwydd rhwng ymarferwyr allweddol sy'n cefnogi'r oedolyn ond nid oedd amseroldeb hyn bob amser yn effeithiol ac nid oedd lefel y manylder yn y wybodaeth y cafodd ei rhannu bob amser yn gywir a/neu'n ddigon manwl. Mae enghreifftiau o hyn yn cynnwys:

- Ar 17 Gorffennaf 2017 yr oedd nodiadau cofnod y feddygfa'n nodi diagnosis o 'syndrom Diogenes'⁸ ond ni chafodd hyn ei rannu ag ymarferwyr mewn asiantaethau eraill a chadarnhawyd nad oedd hwn yn ddiagnosis ffurfiol ac mewn gwirionedd cafodd ei gofnodi oherwydd iddo gael ei nodi/awgrymu mewn llythyr gan deulu'r oedolyn i'r meddyg teulu'n datgan eu pryder.
- Ar 19 Chwefror 2020, nododd yr adroddiad Oedolyn mewn Perygl a luniodd y feddygfa ar gyfer y Gwasanaethau Cymdeithasol y gwyddys fod gan yr oedolyn ddementia ac y bu ymholiad ynghylch ei alluedd o ganlyniad i ddiagnosis o ddementia a dirywiad yn ei iechyd meddwl. Ar 4 Mawrth 2020 mae cofnod yn llinell amser yr adolygiad hwn yn nodi "Nid oes adolygiad dementia wedi'i gwblhau oherwydd bod y Claf wedi gwrthod cymorth/gofal". Yn ystod y digwyddiad dysgu cadarnhaodd Gweithwyr Cymdeithasol nad oedden nhw'n ymwybodol o ddiagnosis o ddementia gan fod hyn wedi'i nodi yn y cofnodion a oedd ganddynt. Gwnaeth ymarferwyr o'r gwasanaeth lechyd hefyd gwestiynu a oedd y dementia yn ddiagnosis ffurfiol neu'n rhagdybiaeth a wnaed yn seiliedig ar ganlyniadau asesiad Addenbrookes yn 2017.
- Tra bod cofnodion y Gwasanaethau Cymdeithasol yn nodi y byddai gofyn i weithiwr cefnogi dementia gwblhau gwiriad lles, cadarnhawyd yn y digwyddiad dysgu nad

⁶ <https://www.safeguarding.wales/en/adu-i/adu-i-a3pt1/a3pt1-p4/>

⁷ Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl (Cyfrol 6 - Ymdrin ag Achosion Unigol i Ddiogelu Oedolion sy'n Wynebu Risg) 2019

⁸ Mae syndrom Diogenes yn anhwylder ac mae hunan-esgeulustod, cartref budr, difaterwch, celcio sbwriel yn orfodol ac yn bwysicach fyth, diffyg cywilydd, yn nodweddiadol ohono.

oedd hyn ar sail y ffaith bod gan yr oedolyn ddementia, ond yn enghraifft o arfer da gan fod y gweithiwr cefnogi dementia hefyd yn cael ei gyflogi i ymgysylltu ag unigolion sy'n aml yn anodd ymgysylltu â nhw oherwydd gallan nhw fod yn fwy hyblyg o ran eu dulliau cysylltu.

- Nid yw'n glir a gafodd canlyniad asesiad y Gweithiwr Cymdeithasol yn 2017 ei rannu ag ymarferwyr iechyd sy'n gweithio gyda'r oedolyn.
- Er bod nifer o gyfarfodydd Tîm Aml Ddisgyblaeth wedi'u cynnal yn fewnol yn y feddygfa, nid oes cofnodion ffurfiol (e.e. cofnodion cyfarfodydd) yn cael eu cymryd yn ystod y cyfarfodydd hyn sy'n arwain at beidio â chofnodi manylion y pryderon a drafodwyd yn ystod y cyfarfod yn ffurfiol.

Deall y polisi hunan-esgeuluso rhanbarthol a'i weithredu

Yn 2016 cyhoeddodd Bwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru ei bolisi rhanbarthol yn gysylltiedig â hunan-esgeuluso (diweddarwyd yn 2020)⁹. Nod y polisi a'r gweithdrefnau yw atal anaf difrifol neu farwolaeth unigolion y mae'n ymddangos eu bod nhw'n hunan-esgeuluso trwy sicrhau fod:

- Unigolion yn cael eu grymuso cymaint â phosibl i ddeall goblygiadau eu gweithredoedd;
- Dealltwriaeth gyffredin, aml-asiantaeth a chydabyddiaeth o'r materion;
- Gwaith ac arfer aml-asiantaeth effeithiol;
- Pryderon yn cael blaenoriaeth briodol;
- Asiantaethau a sefydliadau yn cynnal eu dyletswyddau gofal;
- Ymateb cymesur i lefel y perygl i'w hunain ac i eraill

Yn y polisi ceir proses wedi'i diffinio'n glir y dylid ei dilyn pan fo pryderon yn ymwneud ag unigolyn sy'n hunan-esgeuluso a phan fo'n ymddangos ei fod mewn perygl sylweddol. Mae'r broses yn cynnwys: asesu'r unigolyn; ymgysylltu'n weithredol â'r unigolyn; cyfarfod aml-asiantaeth; datblygu cynllun gweithredu a threfniadau monitro'r cynllun. Mae'r adolygiad hwn wedi nodi y collwyd cyfleoedd i gychwyn neu weithredu'r polisi gan yr un o'r asiantaethau sy'n ymwneud â chefnogi'r oedolyn. Er enghraifft:

- Ar 7 Gorffennaf 2017 pan aeth yr oedolyn i'r feddygfa oherwydd bod ganddo wserau cronig gan nad oedd wedi tynnu ei esgidiau am dros fis.
- Ar 9 Medi 2017 pan gwblhawyd asesiad Addenbrookes ac yr oedd datganiadau'r oedolyn ei hun yn nodi mai ychydig iawn o ddealltwriaeth oedd ganddo o'i anghenion gofal a'i fod yn gwrthod derbyn gofal ar ôl iddo gael ei ryddhau o'r ysbyty.
- Ym mis Medi 2017 yn ystod yr asesiad a gwblhaodd y Gweithiwr Cymdeithasol.
- Ar 17 Hydref 2019 pan wnaeth y Tîm Aml Ddisgyblaeth drafod y posibilrwydd o wneud atgyfeiriad diogelu yn y feddygfa.
- Ar 11 Medi 2020 pan wnaeth y Tîm Aml Ddisgyblaeth drafod y posibilrwydd o wneud atgyfeiriad diogelu yn y feddygfa.
- Ar 19 Chwefror 2021 pan wnaeth y Gwasanaethau Cymdeithasol gau'r achos gan fod yr oedolyn wedi datgan nad oedd angen cymorth arno.

⁹Polisi a Gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru i gefnogi pobl sy'n hunan-esgeuluso (adolygydd yn 2020)

Pe bai'r polisi hunan-esgeuluso wedi'i ddefnyddio byddai wedi rhoi'r cyfle i nodi, fel grŵp aml-asiantaeth, y dewisiadau cyfreithiol yr oedd ar gael er mwyn gallu gweld yr oedolyn.

Yn ystod y digwyddiad dysgu gwnaeth pawb a oedd yn bresennol gadarnhau nad oedden nhw'n ymwybodol o fanylion y polisi rhanbarthol pan fu farw'r oedolyn. Fodd bynnag, cafwyd cadarnhad bod ymwybyddiaeth o'r polisi a materion yn ymwneud â hunan-esgeulustod wedi cynyddu.

Gwella Systemau ac Ymarfer

Er mwyn hybu dysgu o'r achos hwn, mae'r adolygiad wedi nodi'r camau gweithredu canlynol ar gyfer y Bwrdd a'i asiantaethau sy'n aelodau yn ogystal â'r canlyniadau gwelliant a ragwelir: -

O ystyried y dystiolaeth a roddwyd yn ystod yr adolygiad a'r safbwyntiau a'r dysgu a gyflwynwyd yn ystod y digwyddiad dysgu mae'r canlynol wedi'u nodi yn bwyntiau dysgu allweddol ar gyfer gwella ymarfer a systemau.

Rhannu gwybodaeth ac eglurhad proffesiynol

Mae angen i fanylion y wybodaeth a rennir rhwng asiantaethau (er enghraifft mewn atgyfeiriadau ac adroddiadau) fod yn gywir ac yn gyfredol, gan gynnwys: canlyniadau asesiadau; diagnosis ffurfiol; pwy sydd wedi gweld yr unigolyn, ymhle ac ym mha amgylchiadau; cadarnhad bod cymorth yn cael ei roi. Pan fo'r wybodaeth yn amwys, bydd angen i bob gweithiwr proffesiynol sy'n ymwneud â'r oedolyn egluro'r hyn nad yw'n eglur.

Pan fo unigolion yn methu â mynd i apwyntiadau (fel adolygiadau meddyginiaeth) mae prosesau ar waith i nodi hyn ac i fynegi pryderon.

Deall a gweithredu Gweithdrefnau Diogelu Cymru

Pob asiantaeth i sicrhau bod staff sy'n gweithio'n uniongyrchol gydag oedolion ag anghenion gofal a chymorth a/neu a all fod yn profi neu mewn perygl o gael eu cam-drin neu eu hesgeuluso, yn ymwybodol o gynnwys Gweithdrefnau Diogelu Cymru a'u dyletswyddau nhw o ran nodi ac adrodd am bryderon yn ymwneud â hunan-esgeulustod.

Gwasanaethau Cymdeithasol i sicrhau bod y sawl sy'n adrodd ar yr oedolyn mewn perygl yn cael cydnabyddiaeth o dderbyn yr adroddiad o fewn 7 diwrnod gwaith.

Mae pob asiantaeth sydd â dyletswydd i adrodd am bryderon ynghylch oedolion sy'n wynebu perygl yn glir ynghylch eu dyletswydd nhw i fynd ar drywydd adroddiadau oedolion mewn perygl os nad yw'r awdurdod lleol wedi cael cydnabyddiaeth o fewn 7 diwrnod gwaith.

Deall asesiad a galluedd meddyliol pan fo'n berthnasol

Pob asiantaeth i sicrhau bod staff sy'n gweithio'n uniongyrchol ag oedolion yn ymwybodol o'r arwyddion y gall unigolyn fod yn ddiffygiol mewn galluedd meddyliol, yn ymwybodol o'r ddeddfwriaeth drosfwaol, sef Deddf Galluedd Meddyliol (2005) a'u bod nhw'n glir

ynghylch eu prosesau mewnol ar gyfer nodi pryd efallai nad oes gan unigolyn alluedd a'r prosesau i'w dilyn i sicrhau eu bod nhw'n cael eu hasesu'n briodol ac yn gymesur.

Deall a gweithredu Polisi Hunan-esgeuluso Gogledd Cymru

Codi ymwybyddiaeth aml-asiantaeth rhanbarthol (gan gynnwys ysbyty Iarlls Caer) o bolisi hunan-esgeuluso Gogledd Cymru yn cynnwys sesiynau hyfforddi â phwyslais ar gefnogi rheolwyr ac ymarferwyr i'w weithredu (yn enwedig mewn amgylchiadau pan fo achosion yn cau a phryderon newydd yn ymddangos).

Casgliad

Wrth ystyried argymhellion yn ymwneud ag ymarfer i gefnogi'r gwaith o nodi oedolion sydd mewn perygl o gael eu cam-drin a'u hesgeuluso, mae angen ystyried yr hyn sydd ar gael ar hyn o bryd i gefnogi'r canlyniadau a ddymunir. Mae hyn yn cynnwys dilyn yr adnoddau sydd wedi'u datblygu gan Fwrdd Diogelu Oedolion Gogledd Cymru.

- 10 awgrym ar gyfer llunio adroddiad diogelu oedolion
- Canllawiau ymarfer rhanbarthol ar gyfer penderfyniadau diogelu oedolion
- Ymdrin â gwahanol safbwyntiau: canllawiau ar gyfer gweithwyr proffesiynol ym maes iechyd a gofal cymdeithasol sy'n gweithio gydag oedolion mewn perygl yng Ngogledd Cymru.
- Canllawiau chwilfrydedd proffesiynol

Argymhellir bod pob gweithiwr proffesiynol sy'n gweithio gydag oedolion mewn perygl yn defnyddio'r canllawiau hyn.

Yn ogystal â hyn, mae nifer o awgrymiadau ymarfer yng Ngweithdrefnau Diogelu Cymru yn ymwneud ag asesu galluedd ac ymgysylltu â phobl sy'n dewis peidio ag ymgysylltu.

Mae angen ystyried gwerth ailgynhyrchu'r hyn sy'n bodoli ar hyn o bryd ac mae angen sicrhau bod unrhyw gynllun gweithredu yn y dyfodol yn arloesol ac yn ystyrlon.

Dymunai'r adolygwyr ddiolch i bob ymarferydd a gymerodd ran yn yr adolygiad a rhoi sicrwydd iddyn nhw nad oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu neu nodi y gellid bod wedi rhagweld marwolaeth yr oedolyn o ganlyniad i archwilio'r holl ddogfennau a gyflwynwyd i'r adolygwyr a'r trafodaethau a'r sylwadau a gafwyd yn ystod y digwyddiad dysgu.

Rhestr Ddarllen



Polisi a Gweithdrefnau Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru i gefnogi pobl sy'n hunan-esgeuluso (adolygwyd yn 2020)


Preston-Shoot (2018) *'Learning from safeguarding adult reviews on self-neglect: addressing the challenge of change'*

Gweithdrefnau Diogelu Cymru (2019)

Llywodraeth Cymru (2014) *Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a chanllawiau atodol*

Llywodraeth Cymru (2016) *Gweithio Gyda'n Gilydd i Ddiogelu Pobl - Cyfrol 3 – Adolygiadau Ymarfer Oedolion*

Datganiad gan yr adolygydd/adolygwyr			
ADOLYGYDD 1		ADOLYGYDD 2 (os yw'n briodol)	
Datganiad ynghylch bod yn annibynnol ar yr achos		Datganiad ynghylch bod yn annibynnol ar yr achos	
Sicrhau Ansawdd – Datganiad ynghylch cymhwysedd		Sicrhau Ansawdd – Datganiad ynghylch cymhwysedd	
<p>Rwyf yn datgan bod y canlynol yn wir cyn i mi ddechrau ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> Ni fûm yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn neu'r teulu, ac ni roddais gyngor proffesiynol ynghylch yr achos. Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol i'r ymarferwr/ymarferwyr dan sylw. Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth a'r profiad priodol ac rwyf wedi cael hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad. Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac roedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a nodwyd yn y cylch gorchwyl.. 		<p>Rwyf yn datgan bod y canlynol yn wir cyn i mi ddechrau ymwneud â'r adolygiad dysgu hwn:-</p> <ul style="list-style-type: none"> Ni fûm yn ymwneud yn uniongyrchol â'r unigolyn neu'r teulu, ac ni roddais gyngor proffesiynol ynghylch yr achos. Nid wyf wedi bod yn rheolwr atebol uniongyrchol i'r ymarferwr/ymarferwyr dan sylw. Mae gennyf y cymwysterau cydnabyddedig, yr wybodaeth a'r profiad priodol ac rwyf wedi cael hyfforddiant priodol i gynnal yr adolygiad. Cynhaliwyd yr adolygiad yn briodol ac yr oedd yn drwyadl o ran y modd y bu'n dadansoddi ac yn gwerthuso'r materion a nodwyd yn y cylch gorchwyl.. 	
Adolygydd 1		Adolygydd 2	
(Llofnod)		(Llofnod)	
Enw	Vicky Allen	Enw	David Lewis
Dyddiad	9.02.2023	Dyddiad	9.02.20223

Cadeirydd y Panel Adolygu
(Llofnod)


Enw	Frances Millar
Dyddiad	09/02/2023

Atodiad 1: Cylch gorchwyl Atodiad **2:** Llinell amser gryno

Proses Adolygiad Ymarfer Oedolion

Yr hyn y dylid ei gynnwys yma'n gryno:

- *Y broses a ddilynwyd gan y Bwrdd a'r gwasanaethau a gynrychiolir ar y Panel Adolygu*
- *Bod digwyddiad dysgu wedi'i gynnal, gan nodi'r gwasanaethau a oedd yn bresennol*
- *Bod aelodau'r teulu wedi cael eu hysbysu, y gofynnwyd am eu barn, y cawsant eu cynrychioli drwy gydol y digwyddiad dysgu ac y darparwyd adborth iddynt.*

Gwrthododd y teulu gymryd rhan

At ddefnydd Llywodraeth Cymru yn unig

Dyddiad y cafwyd y wybodaeth

Dyddiad y cafodd llythyr o gydnabyddiaeth ei anfon at Gadeirydd y Bwrdd
.....

Dyddiad y cafodd ei ddsbarthu i'r arolygiaethau/Arweinwyr Polisi perthnasol
.....

Asiantaethau	Ydy	Na	Rheswm
Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Estyn	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	

Arolygiaeth Heddluoedd Heddlu ei Fawrhydi	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	
Y Gwasanaeth Prawf	<input type="checkbox"/>	<input type="checkbox"/>	